Ffrangeg

Ffrangeg

Mae'r cwrs hwn yn agored i bob un sydd wedi ennill gradd 'C' neu uwch mewn arholiadau TGAU Haen Uwch neu gyfwerth yn Ffrangeg.

Lleolir y cwrs yn Ysgol Bro Pedr.

Cysylltwch â: Mr R Fry / Mrs J Davies

Strwythur a Chynnwys y Cwrs

Uwch Gyfrannol (UG)		Uwch (UG ac U2)
UNED 1 Hamdden a ffordd o fyw gan gynnwys teithio a thwristiaeth, chwaraeon, hobïau, adloniant, traddodiadau, byw yn iach – iechyd a maeth, deiet ac ymarfer corff; ffordd afiach o fyw – cyffuriau, aids, ysmygu, alcohol a.y.y.b. Pwysiad: 20%		**UNED 3** Materion Amgylcheddol, gan gynnwys technoleg, llygredd, cynhesu byd-eang, trafnidiaeth, egni, ynni adnewyddadwy, cadwraeth, cynaladwyedd ac ailgylchu. Pwysiad: 20%
UNED 2 Yr Unigolyn a'r Gymdeithas, gan gynnwys perthnasoedd a chyfrifoldebau, materion rhyw (gender) a diwylliant yr ifanc, [gwerthoedd, grwpiau cyfoedion, ffasiynau a thueddiadau ffasiwn a.y.y.b.], addysg, hyfforddiant galwedigaethol a gyrfaoedd yn y dyfodol. **Pwysiad:** 30%		**UNED 4** Materion Cymdeithasol a Gwleidyddol, gan gynnwys rôl y cyfryngau, hiliaeth, mewnfudo, eithrio ac integreiddio cymdeithasol, terfysgaeth, byd gwaith [cyflogaeth, masnach, globaleiddio a.y.y.b.] Pwysiad: 30%
Asesiad ar gyfer y ddwy Uned. Llafar. 15 munud. 60 marc. Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu. 2½ awr. 98 o farciau.		**Asesiad ar gyfer y ddwy Uned.** Llafar. 20 munud. 60 marc. Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu. 3 awr. 98 marc **Noder:** Fel rhan o'r cwrs A2, bydd angen ysgrifennu traethawd o 400 o eiriau yn yr Opsiwn Astudiaethau Cyfarwyddiedig. Gall naill ai ddod o'r Byd Sinema, y Byd Llenyddol neu astudiaeth o un neu ddwy o ardaloedd Ffrainc.

UG = 2 uned (astudir ym Ml12) gydag U2 = 2 uned (astudir ym Ml13) yn gyfartal i Lefel A llawn

Ffrangeg

Ffrangeg

Asesiad:

Bydd yr arholiadau Ysgrifenedig, Gwrando a Darllen yn cael eu cynnal ym Mis Mai i flwyddyn 12 a Mis Mehefin i flwyddyn 13. Bydd cyfle i ymgeiswyr Blwyddyn 13 wella ar eu canlyniadau Blwyddyn 12, os dymunent, a hynny ym mis Ionawr Blwyddyn 13. Bydd yr arholiad Llafar fel arfer ym mis Ebrill/Mai.

Bydd rhyw gyfeiriad at Ffrainc a gwledydd lle siaradir Ffrangeg ym mhob pwnc a astudir. Yn ystod yr arholiadau, disgwylir i ymgeiswyr ddeall ac ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i ddeunydd llafar ac ysgrifenedig yn Ffrangeg. Bydd disgwyl iddynt ddangos gwybodaeth o ramadeg a chystrawen yr iaith a'u defnyddio'n gywir gan hefyd ddangos dealltwriaeth o agweddau o gymdeithas y wlad/gwledydd lle siaradir yr iaith.

Sgiliau'r pwnc

- Darllen eang
- Ymchwil
- Cyfathrebu Ysgrifennu a siarad yn effeithiol
- Dadansoddi Ymchwilio a dadansoddi materion
- Gwerthuso Dehongli a gwerthuso materion a syniadau
- Trafod Gwybodaeth Galw i gof, dethol a chymhwyso gwybodaeth
- Deallusrwydd Gwrando a darllen yn effeithiol

Dilyniant 18+:

Cymhwyster hollol dderbyniol ar gyfer mynediad i brifysgol ac addysg uwch.
Mae gradd mewn Ffrangeg neu fel rhan o gymhwyster uwch neu dim ond gwybodaeth drylwyr o'r iaith yn galluogi person i gael ystod eang o yrfaeodd. Cyniga fynediad i fyd busnes Ewropeaidd ar bob lefel: Y Wasg Ryngwladol, Cyllid Ewrop, Bancio Ewrop, Y Gwasanaeth Sifil, Yr Heddlu, Y Lluoedd Arfog, Rheolaeth, hyd yn oed Dysgu.

Ffrangeg